



Tribiwnlys Addysg Cymru Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023 – 2024

Cynnwys

Rhagair	1
Trefniadau Goruchwylio Cydymffurfiaeth	2
Statws yr Hysbysiad Cydymffurfio ar gyfer sefydliad sydd wedi newid ei enw	2
Asesu Cydymffurfiaeth	2
Adrodd ar waith a wnaed yn 2023-24	4
Gwaith sydd i ddod 2024-25	5

Rhagair

Dyma wythfed adroddiad blynyddol Tribiwnlys Addysg Cymru ar ei gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ers i'r Safonau ddod i rym ar 30 Mawrth 2017. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024.

Ym mis Medi 2021, newidiodd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) ei enw i Dribiwnlys Addysg Cymru. Fodd bynnag, at ddibenion Safonau'r Gymraeg bydd y Tribiwnlys yn dilyn yr un safonau ag a bennwyd ar gyfer TAAAC.

Mae dwy ran i'r Tribiwnlys, sef yr ysgrifenyddiaeth a'r Deiliaid Swyddi Barnwrol. Mae'r ddwy ran yn gweithio gyda'i gilydd, yn ystod y broses apelio a hawlio, gan wneud tasgau gwahanol. Mae Deiliaid Swyddi Barnwrol yn cynnwys:

- Llywydd y Tribiwnlys, hynny yw, yr arweinydd barnwrol;
- Barnwyr y Tribiwnlys; ac
- Aelodau Arbenigol, sydd â phrofiad o blant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a/neu anableddau.

Mae Deiliaid Swyddi Barnwrol yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un yn y Llywodraeth nac unrhyw un sydd wedi'i gyflogi gan y Llywodraeth ddylanwadu ar eu penderfyniadau. Mae gan y Tribiwnlys 7 Deiliad Swydd Farnwrol (4 Barnwr, 3 Aelod Arbenigol) sydd â sgiliau Cymraeg cryf, a gellir cynnull panel llawn (hynny yw Barnwr ac Aelodau Arbenigol) a all glywed a chynnal gwrandawriad llawn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ysgrifenyddiaeth yn ymdrin â phob ymholiad ffôn a phob ymholiad ysgrifenedig. Maent yn weision sifil a gyflogir gan Lywodraeth Cymru ac yn rhan o Uned Tribiwnlysoedd Cymru, sy'n gyfrifol am weinyddu chwe thribiwnlys datganoledig ledled Cymru. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn darparu rôl cymorth gweinyddol ac ni all ddylanwadu ar benderfyniad panel y Tribiwnlys. Nid oes neb yn nhîm yr ysgrifenyddiaeth yn rhugl yn Gymraeg, ond mae cymorth ysgrifenyddiaethau eraill Uned Tribiwnlysoedd Cymru ar gael iddynt pan fo angen. Mae'r Uwch Reolwr Gweithrediadau a Phennaeth Tribiwnlysoedd Cymru yn rhugl yn y Gymraeg.

Dyddiad cyhoeddi: 30/09/2024

Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau: Tribunal.Enquiries@llyw.cymru

Trefniadau Goruchwylio Cydymffurfiaeth

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn wedi'i baratoi gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru ac wedi'i gymeradwyo gan Lywydd Tribiwnlys Addysg Cymru.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn ymddangos ar wefan y Tribiwnlys ac mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cael gwybod ei fod wedi cael ei gyhoeddi.

Statws yr Hysbysiad Cydymffurfio ar gyfer sefydliad sydd wedi newid ei enw

Ar 31 Mawrth 2022, derbyniodd Llywydd y Tribiwnlys llythyr gan Ddirprwy Gomisiynydd y Gymraeg yn cadarnhau statws yr hysbysiad cydymffurfio ar gyfer Tribiwnlys Addysg Cymru (y Tribiwnlys), yn dilyn newid ei enw o'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig (TAAAC).

Dywedodd y llythyr, gan mai dim ond newid enw a fu yn yr achos hwn, a chan fod swyddogaethau'r Tribiwnlys yn parhau'n debyg iawn i'r tribiwnlys blaenorol, nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach. Mae'r hysbysiad cydymffurfio a gyhoeddwyd ar gyfer TAAAC yn parhau i fod ar waith ar gyfer y Tribiwnlys. Wrth ystyried sefydliad sy'n newid ei enw ar ôl cael ei hysbysiad cydymffurfio o dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, nid yw newid enw person a bennir yn Atodlen 6 neu Atodlen 8 yn effeithio ar weithrediad y Mesur mewn perthynas â'r person hwnnw.

Asesu Cydymffurfiaeth

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Mae'r Tribiwnlys yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau cyflenwi gwasanaethau drwy'r camau canlynol:

- Cynhyrchu brand dwyieithog newydd i gyd-fynd ag enw newydd y tribiwnlys.
- Rhoi canllawiau i staff ar sut i ymateb i ohebiaeth, ateb y ffôn ac ateb negeseuon e-bost.
- Darparu templedi ar gyfer llythyrau sy'n cynnig cyfle i ddefnyddwyr y Tribiwnlys gael gohebiaeth yn Gymraeg. Mae llythyrau a negeseuon e-bost oddi wrth y Tribiwnlys hefyd yn cynnwys brawddeg safonol yn datgan bod gohebiaeth yn cael ei chroesawu yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
- Mae'r holl ddogfennau a gynhyrchir i'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gynnwys ffurflenni cais a dogfennau canllaw. Mae fersiynau Saesneg o ddogfennau a ffurflenni a gynhyrchir gan y Tribiwnlys hefyd yn cynnwys brawddeg safonol yn datgan eu bod ar gael yn Gymraeg, ac y gall y cyhoedd gyflwyno gwybodaeth i'r Tribiwnlys yn Gymraeg.

- O fis Mawrth 2024, mae cwestiwn dewis iaith newydd wedi'i gynnwys yn y ffurflenni, ac ail gwestiwn nad yw'n orfodol yn gofyn "Os ydych chi'n gallu siarad Cymraeg ac wedi nodi Saesneg fel eich dewis iaith, byddem yn croesawu adborth i gael gwybod am yr hyn sy'n eich rhwystro rhag defnyddio'r Gymraeg mewn Tribiwnlys".
- Sicrhau bod pawb yn deall bod darpariaeth ar gyfer cynnal gwrandawiadau yn Gymraeg ac y gall unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawriad.
- Mae pob tudalen o'n gwefan ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- Cyflwynodd Llywodraeth Cymru system ffôn newydd drwy Microsoft Teams ym mis Ebrill 2021. Mae'r Tribiwnlys yn defnyddio'r system newydd hon i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safonau 8 a 9 drwy sicrhau bod gan ddefnyddwyr y Tribiwnlys yr opsiwn o bwysu 1 i siarad ag aelod o'r tîm yn Gymraeg a phwysu 2 i siarad ag aelod o'r tîm yn Saesneg.

Defnyddio ein gwasanaethau 2023-24:

Cyfanswm y ceisiadau a ddaeth i law	108
Nifer y ceisiadau a gafodd eu prosesu yn Gymraeg	0
Cyfanswm y gwrandawiadau a gynhelir	101
Nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yn Gymraeg	2

Sylwer: Cafodd y 2 wrandawriad a nodwyd eu bod yn wrandawiadau Cymraeg eu cynnal yn ddwyieithog, o ran bod aelodau Cymraeg eu hiaith ar y panel a darparwyd cyfieithu ar y pryd i sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn deall y trafodion. Fodd bynnag, cafodd yr achosion eu hunain eu prosesu yn Saesneg.

Gwefannau

Oherwydd newidiadau i'r system nid ydym yn gallu pennu nifer yr ymweliadau â gwefan y Tribiwnlys ar gyfer chwarter cyntaf 2023-24. Felly, mae'r ffigurau a nodwyd yn cwmpasu chwarteri 2-4 yn unig, rhwng 1 Gorffennaf 2023 a 31 Mawrth 2024.

Nodir isod ddadansoddiad o faint o weithiau yr ymwelwyd â thudalen hafan Gymraeg a Saesneg Tribiwnlys Addysg Cymru rhwng 1 Gorffennaf 2023 a 31 Mawrth 2024.

	Saesneg	Cymraeg	Cyfanswm
Nifer yr ymweliadau â thudalen Tribiwnlys Addysg Cymru	7,409	240	7,649
Nifer yr ymweliadau â thudalen TAAAC	1,293	41	1,334

Safonau Llunio Polisi

Mae'r Tribiwnlys yn arfer ei swyddogaethau statudol yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n ei lywodraethu. Nid yw o fewn cylch gwaith y Tribiwnlys i ddatblygu polisi. Er hynny, rydym yn ystyried effaith ein penderfyniadau gweithredol ar ddarpariaeth ein gwasanaethau yn Gymraeg.

Safonau Cadw Cofnodion

Mae Hysbysiad Cydymffurfio'r Tribiwnlys (sy'n manylu ar y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Lluo Polisi a Chadw Cofnodion y mae'n rhaid i'r Tribiwnlys gydymffurfio â hwy) wedi'i gyhoeddi ar wefan y Tribiwnlys: www.tribiwnlysaddysg.llyw.cymru/sites/educationtribunal/files/2021-08/hysbysiad%20cydymffurfio_0.pdf. ydym yn cadw cofnod o nifer y cwynion a ddaw i law, os oes rhai, sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r Safonau.

Cwynion

Daeth 1 gŵyn i law'r Tribiwnlys am wasanaeth Cymraeg Tribiwnlys Addysg Cymru yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd yn ymwneud â materion technegol y gwasanaeth cyfieithu a ddarparwyd yn ystod gwrandawriad Tribiwnlys rhithwir, yn hytrach na bod dim gwasanaeth Cymraeg wedi'i ddarparu gan y Tribiwnlys.

Adrodd ar waith a wnaed yn 2023-24

	Cam gweithredu	Cynnydd
1.	Cynnal gwaith i gynllunio system hunanreoleiddio o ran cydymffurfio â safonau'r Gymraeg ar gyfer y Tribiwnlys.	Amcan wedi'i gwblhau: Lluniwyd dau holiadur 'ticio blychau', un ar gyfer clerod ac un ar gyfer y rheolwr busnes. Mae'r rhain yn helpu i brocio'r cof a gwirio gwybodaeth am Safonau'r Gymraeg. Wedi'i weithredu 2023.
2.	Cynhyrchu dogfen ganllaw, gan roi cyfarwyddiadau i'r Tribiwnlys ar sut i gael gafael ar wasanaethau cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd, ac ar hwyluso cyfarfodydd dwyieithog drwy blatfformau fideo-gynadleda.	Amcan wedi'i gwblhau: Mae dogfen ganllaw wedi'i chwblhau, ac mae fframwaith cyfieithu newydd ar waith. Wedi'i weithredu 2024.
3.	Bydd gwefannau Tribiwnlys Addysg Cymru a TAAAC yn cael eu hadolygu a bydd cyfleoedd i gael mynediad at wasanaethau'r Tribiwnlys drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hamlygu.	Parhau i gyflawni'r amcan: Mae'r logo Cymraeg oren wedi'i gosod ar dudalen hafan gwefan Tribiwnlys Addysg Cymru. Ar hyn o bryd rydym yn cydweithio â thîm y we i archwilio ffyrdd pellach o hwyluso mynediad hawdd at wasanaethau Cymraeg ar-lein.
4.	Bydd fideos dwyieithog yn cael eu cynhyrchu yn amlinellu gwaith a phroses y Tribiwnlys, gan esbonio'r newid o TAAAC i Tribiwnlys Addysg Cymru ac amlinellu'r ffordd y mae cylch gwaith y Tribiwnlysoedd wedi'i ymestyn. Bydd y fideos hyn yn annog y cyhoedd i ddefnyddio gwasanaethau'r Tribiwnlys drwy gyfrwng y Gymraeg.	Amcan wedi'i gwblhau: Mae'r fideos wedi'u cwblhau a chawsant eu lanlwytho i dudalennau Cymraeg a Saesneg gwefan Tribiwnlys Addysg Cymru ym mis Gorffennaf 2023.

	Cam gweithredu	Cynnydd
5.	Meithrin cysylltiadau â defnyddwyr gwasanaethau i nodi'r hyn sy'n eu rhwystro rhag rhyngweithio â'r Tribiwnlysoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.	Parhau i gyflawni'r amcan: Cynlluniwyd proses i gasglu gwybodaeth gan ddefnyddwyr (gweler pwynt bwled 5 o dan Safonau Cyflenwi Gwasanaethau). Bydd data sy'n cael eu casglu o fis Mawrth 2024 yn cael eu dadansoddi ar ôl derbyn digon o wybodaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau.
6.	Nodi gwelliannau y gellir eu gwneud a'u rhoi ar waith yn ystod 2023-24 i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ein Tribiwnlysoedd.	Parhau i gyflawni'r amcan: (gweler uchod) Rydym hefyd wedi nodi gwelliannau y gellir eu gwneud i'r wefan a fydd yn galluogi hyrwyddo'r Gymraeg. Rydym yn gweithio gyda'n hadran TG ar hyn o bryd i weithredu'r gwelliannau hynny.
7.	Darparu hyfforddiant i holl aelodau'r Tribiwnlys a staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r defnydd o'r Gymraeg yn ei gwrandawiau ac mewn perthynas â chyfathrebu ehangach, ac o rwymedigaethau'r Tribiwnlysoedd o dan Safonau'r Gymraeg.	Amcan wedi'i gwblhau: Darparwyd hyfforddiant ar Safonau'r Gymraeg ac i godi ymwybyddiaeth aelodau'r Tribiwnlys amdanynt yn ystod cynhadledd flynyddol ym mis Tachwedd 2023. A darparwyd hyfforddiant i staff gweinyddol Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn ystod y Diwrnod Hyfforddi Tîm ym mis Medi 2023.

Gwaith sydd i ddod 2024-25

- Meithrin cysylltiadau â defnyddwyr gwasanaethau i nodi'r hyn sy'n eu rhwystro rhag rhyngweithio â'r Tribiwnlysoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Nodi gwelliannau y gellir eu gwneud a'u rhoi ar waith yn ystod 2024-25 i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ein Tribiwnlysoedd.
- Asesu cydymffurfiaeth y Tribiwnlys â Safonau'r Gymraeg yn erbyn llinell sylfaen a sefydlwyd yn 2023-24.
- Paratoi Dogfen sy'n amlinellu gofynion Safonau'r Gymraeg i'w rhannu â holl Aelodau'r Tribiwnlys.